Ken Skates AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Deputy Minister for Skills and Technology

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-458
Ein cyf/Our ref KS/00326/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

17 Ebrill 2014

Annwyl William,

***Parthed: P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus* (18 Chwefror 2014)**.

Rwy'n ysgrifennu atoch i ateb eich ymholiad ynghylch mater a godwyd mewn deiseb ddiweddar, lle roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cyflwyno contract Cymru gyfan ar gyfer darlithwyr addysg bellach. Mae fy swyddogion wedi cysylltu â Colegau Cymru, sef y corff sy'n cynrychioli colegau addysg bellach yng Nghymru, ac mae'r corff hwnnw wedi datgan fel a ganlyn:

Roedd arolwg o golegau'n dangos bod wyth coleg yn bwriadu gweithredu'r contract cyffredin o 1 Medi 2014, a hefyd bod un arall lle bydd darlithwyr a rheolwyr, ond nid staff cymorth busnes, yn symud bryd hynny i'r contract newydd. O fis Medi 2015, bydd un coleg, ynghyd â'r staff cymorth busnes o'r coleg uchod yn trosglwyddo i'r contract, a bydd dau goleg arall yn gwneud hynny o fis Medi 2016. Mae yna un coleg sydd heb benderfynu eto. Mae'r faith bod gan staff yr hawl i beidio â throsglwyddo tan fis Medi 2016 yn golygu na fydd yr holl staff mewn rhai colegau yn trosglwyddo yn 2014 neu 2015. Fodd bynnag, bydd yr holl staff wedi trosglwyddo i'r contract cyffredin erbyn 1 Medi 2016.

Gan obeithio bod hyn yn rhoi ddigon o fanylion i ateb eich ymholiad.

Yr eiddoch yn erioed

Ken Skates AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Deputy Minister for Skills and Technology

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper